Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



*One Land, Many Faces*, Theatr Volcano (llun: Erin Rickard)

# Asesu cyfraniad yr Undeb Ewropeaidd at gelfyddydau Cymru er 2007

Lluniwyd yr adroddiad a gwnaed yr ymchwil gan Euclid

Awst 2017

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 2 |
| Sylwadau ar y Ffigurau | 3 |
| Methodoleg | 4 |
| Crynodeb o Symiau a Ddyrannwyd | 7 |
| Y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd | 8 |
| Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop | 8 |
| Cronfa Gymdeithasol Ewrop | 8 |
| Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: RDPE / LEADER | 9 |
| Cronfa Pysgodfeydd Ewrop / Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop | 11 |
| Interreg (Cydweithredu Tiriogaethol Ewrop) | 11 |
| Cronfeydd Trawsgenedlaethol | 13 |
| Ewrop Greadigol / Diwylliant | 13 |
| Erasmus+ / Dysgu Gydol Oes / Ieuenctid ar Waith | 15 |
| Ewrop i Ddinasyddion | 15 |
| Gorwel 2020 / FP7 / Canolfa Ymchwil Ewrop | 23 |

# Crynodeb Gweithredol

Mae **Cyngor Celfyddydau Cymru** wedi comisiynu Euclid i **nodi cyllid gan yr Undeb Ewropeaidd i brosiectau sy'n canolbwyntio ar y celfyddydau yng Nghymru, neu'n gysylltiedig â hwy, dros y 10 mlynedd diwethaf.** Mae cyllid yr Undeb Ewropeaidd yn gweithio mewn cylchoedd 7 mlynedd, felly dehonglwyd "y 10 mlynedd diwethaf" i olygu'r canlynol:

- **7 mlynedd gyfan y cyfnod 2007-13**, lle y mae (yn ddamcaniaethol) wybodaeth lawn ar gael
- Cymaint o'r cyfnod 2014-2020 ag y gellir eu canfod ar yr adeg hon – gyda **2014-2016 yn 3 blynedd.**

Gall cyllid yr Undeb Ewropeaidd gael ei rannu yn ddau brif **gategori**:

- **Y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd,** sydd wedyn yn bennaf yn cael eu datganoli'n ôl i'r aelod-wladwriaethau ac, yn achos y Deyrnas Unedig, ei ddosbarthu ar wahân yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd hefyd yn cynnwys rhaglen **Interreg** sy'n ariannu prosiectau ar sail partneriaethau trawsgenedlaethol ac sy'n dosbarthu cyllid drwy nifer o feysydd ac is-feysydd sydd â ffocws daearyddol (mae Cymru'n gymwys i ymgyfranogi o 4 o'r is-feysydd hyn).
- Y **cronfeydd trawsgenedlaethol**, sef rhaglenni a luniwyd i ysgogi cydweithio rhwng partneriaid o nifer o wledydd cymwys, neu sy'n cynorthwyo ymweliadau a chyfnewidiadau rhwng gwledydd.

## Y casgliad yw bod rhagor na 150 o brosiectau wedi derbyn tua £23m o gyllid yr Undeb Ewropeaidd yn y cyfnod rhwng 2007 a 2016.

Roedd cyfanswm o ryw **£18m o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd**, gyda'r rhan fwyaf **(£12m)** yn dod o **Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop** a **Chronfa Gymdeithasol Ewrop**. Roedd bron i **£6m** yn dod o **Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig** (gan gynnwys **LEADER**) i brosiectau gwledig a dim o **Gronfa Pysgodfeydd Ewrop / Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop**.

Roedd cyfanswm o bron i **€6m** (bron i **£5m** gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar 1 Ionawr 2014 o €0.8298/£1) yn dod o Interreg a'r cronfeydd trawsgenedlaethol:

- Roedd tua **€2.8m** yn dod drwy raglen **Interreg** (rhan o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd)
- Roedd bron i **€2m** yn dod drwy raglen **Erasmus+** ar gyfer addysg a hyfforddiant, a'r rhaglenni a'i rhagflaenai, **Dysgu Gydol Oes ac Ieuenctid ar Waith**
- Roedd dros **€1m** yn dod drwy (is-)raglen **Diwylliant**, sydd bellach yn rhan o **Ewrop Greadigol**

- Nid oedd dim yn dod o gronfa ymchwil a datblygu **Gorwel 2020** na'r rhaglen a'i rhagflaenai, rhaglen y **7fed Fframwaith**
- Nid oedd dim yn dod o raglen **Ewrop i Ddinasyddion**, sy'n canolbwyntio ar brosiectau'n ymwneud â hanes Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd, ac ar ymgysylltiad democrataidd ac ymgyfranogiad dinesig

Nodir bod gwerth yr holl gyllid hwn o'r Undeb Ewropeaidd yn cwmpasu **ystod o effeithiau** – o gyllid a fu **o fudd penodol i'r celfyddydau** yng Nghymru, i **fewnfuddsoddiad mewn sefydliadau ymchwil yng Nghymru** (prifysgolion yn arbennig) sy'n canolbwyntio ar feysydd cysylltiedig.

## Sylwadau ar y Ffigurau

Mae nifer o bwyntiau ynglŷn â'r ffigurau yn yr adroddiad hwn – ac mae'n ymddangos bod y cyfan yn awgrymu bod y ffigurau a ddyfynnir yn debygol o fod yn amcangyfrif yn rhy isel.

### Cychwynnodd y cyllid ar gyfer 2014-2020 yn hwyr

Cychwynnodd llawer o'r rhaglenni newydd ar gyfer 2014-2020 yn hwyr, felly mewn rhai achosion, **nifer cymharol fach o grantiau a wnaed hyd yma** – gan olygu bod y ffigurau ar gyfer 3 blynedd 2014-2016, sy'n 43% o'r 7 mlynedd yng nghyfnod cyllido 2014-2020, yn sicr heb fod yn cynrychioli 43% o'r grantiau tebygol ar gyfer y cyfnod hwn. Mae'r cychwyn araf hwn i ddyfarnu grantiau fel arfer yn digwydd ar gychwyn pob cyfnod cyllido 7 mlynedd.

Er enghraifft, roedd swm y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd bron yn £18m ar gyfer 7 mlynedd 2007-2013, sy'n gyfartaledd o bron i £2.5m y flwyddyn. Ond cyfanswm y grantiau yn 2014-2016, cyfnod o 3 blynedd, oedd £2.8m. Pe byddai'r cyllid wedi bod ar yr un gyfradd â'r cyfnod blaenorol, dylai'r cyfanswm ar gyfer y tair blynedd fod wedi bod o ddeutu £7.5m. Rhesymol fyddai casglu, felly, bod "dim" yn achos sylweddol o amcangyfrif yn rhy isel. Ond at ddiben yr adroddiad hwn, bu'n rhaid inni ddefnyddio ffigwr "dim".

### Ar gyfer prosiectau, defnyddiwyd amcangyfrifon o'r grant i'r partner yng Nghymru

Yr unig ffigurau sydd ar gael ar gyfer Interreg a'r rhan fwyaf o'r cronfeydd trawsgenedlaethol yw'r **grant ar gyfer <u>y prosiect</u>, ac nid y symiau a dderbyniwyd gan unrhyw bartner unigol**. Yr eithriad yw **Gorwel 2020 / Canolfan Ymchwil Ewrop / FP7**, lle mae'r grantiau i bartneriaid unigol ar gael (bron ym mhob achos). Yr unig ffordd i ganfod y symiau a drosglwyddwyd gan y partner arweiniol i'r partneriaid cyd-drefnu yw drwy ddadansoddi datganiadau ariannol terfynol pob un prosiect unigol – anodd yw cael mynediad at y wybodaeth hon, ac nid oedd yn bosib oddi mewn i'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y gwaith ymchwil hwn.

I fynd i'r afael â'r mater hwn, aseswyd yr holl wybodaeth sydd ar gael am y grantiau hyn a nodwyd **nifer y partneriaid** ym mhob prosiect. Rhannwyd grant y prosiect â nifer y partneriaid i gael amcangyfrif o'r grant i'r partner hwnnw. Mewn rhai achosion, bydd y gwir ffigwr yn uwch, ac mewn rhai achosion bydd yn is.

Mae'n ymddangos y byddai hyn yn ffordd fwy priodol i gyfrifo amcangyfrif gweddol gywir. Mae nifer y partneriaid (a nifer y partneriaid yn y Deyrnas Unedig) wedi'i nodi yn y tablau perthnasol ar gyfer y rhaglenni hyn.

## Methodoleg

Nod y gwaith ymchwil yw darparu ffigurau, gyda chafeatau, o swm y cyllid a dderbyniodd sector y celfyddydau oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd yn y 10 mlynedd diwethaf.

Casglwyd y rhan fwyaf o'r data perthnasol drwy gronfeydd data ar-lein a weithredir gan y Comisiwn Ewropeaidd neu un o'i asiantaethau, neu gan Lywodraeth Cymru neu asiantaethau cysylltiedig yng Nghymru. Yn achos y rhan fwyaf o'r cronfeydd data hyn, gwiriwyd pob prosiect sydd â phartner yng Nghymru i weld p'un a oeddynt yn berthnasol i'r sectorau o ddiddordeb. Yn achos rhai cronfeydd data mwy helaeth, gwnaed yr hidlo cychwynnol drwy chwiliadau am eiriau allweddol. Yn yr achosion hyn, defnyddiwyd nifer o eiriau allweddol a gytunwyd gyda'r corff comisiynu. Ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, y geiriau allweddol oedd: **music, theatre, dance, litera/ry/ture, visual, art(s), studio, crafts, creat(e/ive/ivity), cultur(e/al).**

Er hyn, caiff ei gydnabod ei bod yn bosib y gallai fod nifer fach o brosiectau wedi'u hepgor o ganlyniad i ddefnyddio'r geiriau allweddol penodol hyn.

Yn achos y mwyafrif helaeth o'r data a gasglwyd, mae digon o wybodaeth ar gael i fod yn hyderus bod y prosiectau yn wir yn berthnasol i'r diffiniad eang o'r celfyddydau a ddefnyddir ar gyfer y gwaith ymchwil hwn. Serch hynny, ar gyfer Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, gan gynwyr rhaglen LEADER, mae'n debygol na fydd pob rhestr neu gronfa ddata berthnasol wedi'i derbyn. Mae'r ffigurau yn yr adran hon felly yn debygol o fod yn amcangyfrif yn rhy isel.

Mae'r rhaglenni yr ymchwiliwyd iddynt wedi'u rhestru yn y tabl isod – maent wedi'u codio yn ôl lliw i helpu i lywio drwy'r amryw lefelau o gyllid. Mae'r pedair colofn gyntaf yn dangos enwau'r rhaglenni hyn o 2014 ymlaen – roedd rhai yn wahanol yn 2007-2013 ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y golofn olaf.

| Math o raglen | Rhaglen | Is-Raglen | Maes / arall | Enwau 2007-2013 |
|---|---|---|---|---|
| Y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd | Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop | Amrywiol | | |
| | Cronfa Gymdeithasol Ewrop | Amrywiol | | |
| | Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig | Rhaglenni Datblygu Gwledig ac eraill | | |
| | | LEADER | Grwpiau Gweithredu Lleol | |
| | Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop | Amrywiol | | |
| | Interreg | A: Cymru ac Iwerddon | | |
| | | B: Ardal yr Iwerydd | | |
| | | B: Gogledd-orllewin Ewrop | | |
| | | C: Interreg Ewrop | | |
| Cronfeydd Trawsgenedl-aethol | Ewrop Greadigol | Cyfryngau | Llawer o feysydd | |
| | | Diwylliant | Llawer o feysydd | |
| | Erasmus+ (yn flaenorol Dysgu Gydol Oes, Ieuenctid ar Waith) | Cam Allweddol 1 | Llawer o feysydd | Leonardo, Erasmus, Grundtvig, Comenius. |
| | | Cam Allweddol 2 | Llawer o feysydd | |
| Cronfeydd Trawsgenedl-aethol | Ewrop i Ddinasyddion | Cofio | Prosiectau yn unig | |
| | | Cymdeithas Ddinesig | 3 maes | |
| | Gorwel 2020 / Canolfan Ymchwil Ewrop | Nifer | | FP7 |

Ar gyfer yr holl raglenni hyn, y man cychwyn oedd nodi'r **cronfeydd data neu restrau lawrlwythadwy o brosiectau a gyllidwyd** a ddarperir gan **y Comisiwn Ewropeaidd** (yn achos Interreg a chronfeydd trawsgenedlaethol) a chan **Lywodraeth Cymru** (yn achos y rhan fwyaf o'r Cronfeydd Strwythurol: Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop / Cronfa Pysgodfeydd Ewrop) – cafwyd mynediad at **sawl can cronfa ddata neu restrau** fel hyn.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd i gael mynediad at y wybodaeth berthnasol.

| Rhaglen Gyllido | Ffynhonnell y Wybodaeth – gwefannau, cronfeydd data a chyhoeddiadau |
|---|---|
| Y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd: Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop | *Anodd fu cael mynediad at rai elfennau o'r data hwn ar gyfer Cymru.*<br>• Mae cronfeydd data y mae modd eu lawrlwytho ar gael ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop ar gyfer 2014-2020.<br>• Cysylltwyd â'r adran yn Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am ddyrannu Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (gan gynnwys rhaglen LEADER) yng Nghymru. Roedd modd iddynt gyflenwi gwybodaeth ond roeddynt yn cydnabod y gallai fod yn anghyflawn.<br>Felly mae'n debygol y bydd yr adrannau hyn o'r adroddiad yn amcangyfrifo'n rhy isel. |
| Interreg | • KEEP – y gronfa ddata ar gyfer rhaglen Interreg y mae modd chwilio ynddi<br>• Gwefannau a gynhelir gan ysgrifenyddiaethau'r meysydd sy'n berthnasol i Gymru. |
| Ewrop Greadigol | • Lawrlwythwyd rhagor na 300 (2007-13) a 40 (2014-16) o restrau o wefannau'r Asiantaeth Weithredol ar gyfer Addysg, Materion Clyweledol a Diwylliant (EACEA) a Desg Ewrop Greadigol y DU |
| Erasmus+ | • Lawrlwythwyd rhagor na 60 (2007-13) a 50 (2014-16) o restrau o wefannau'r Asiantaeth Weithredol ar gyfer Addysg, Materion Clyweledol a Diwylliant (EACEA) a phwynt cyswllt Erasmus+ y DU |
| Ewrop i Ddinasyddion | • Lawrlwythwyd rhagor na 120 (2007-13) a 18 (2014-16) o restrau o wefannau'r Asiantaeth Weithredol ar gyfer Addysg, Materion Clyweledol a Diwylliant (EACEA) – nid oes pwynt cyswllt yn y DU |
| Gorwel 2020 / FP7 | • Gwnaed chwiliadau o gronfeydd data ar wefannau CORDIS a Chanolfan Ymchwil Ewrop. |
| Rhaglenni eraill | • Y Comisiwn Ewropeaidd a/neu wefannau a/neu gronfeydd data rhaglenni<br>• Unrhyw bwyntiau cyswllt perthnasol eraill yn y DU |

# Crynodeb o'r Symiau a Ddyrannwyd i Brosiectau'n Ymwneud â'r Celfyddydau

| Rhaglen | Is-Raglen | Maes / arall | Swm mewn € | € wedi'i drosi i £ | Swm mewn £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd | | | | | |
| Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop / Cronfa Gymdeithasol Ewrop | Amrywiol | 2007-13 | | | 11,930,490 |
| | | 2014-16 | | | 0 |
| Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig | Cynlluniau Datblygu Gwledig, gan gynnwys LEADER | 2007-13 | | | 3,184,528 |
| | | 2014-16 | | | 2,813,259 |
| Cronfa'r Môr a Physgod-feydd Ewrop | Amrywiol | 2007-13 | | | 0 |
| | | 2014-16 | | | 0 |
| | A: Cymru ac Iwerddon | | 442,345 | 367,058 | |
| | B: Ardal yr Iwerydd | | 256,443 | 212,796 | |
| | B: Gogledd-orllewin Ewrop | | 1,959,189 | 1,625,735 | |
| | C: Interreg Ewrop | | 263,564 | 218,705 | |
| Cronfeydd Trawsgenedlaethol | | | 0 | 0 | |
| Ewrop Greadigol | Cyfryngau | Amherthnasol | 0 | 0 | |
| | 2007-13: Diwylliant | *Amrywiol* | 213,955 | 177,540 | |
| | 2014-20: Is-Raglen Diwylliant | *Amrywiol* | 784,543 | 651,014 | |
| Ewrop i Ddinas-yddion | 2007-13 | *Amrywiol* | 0 | 0 | |
| | 2014-20 | *Amrywiol* | 0 | 0 | |
| Addysg / Hyfford-iant / Ieuenctid | 2007-13: Dysgu Gydol Oes | *Amrywiol* | 1,124,107 | 932,784 | |
| | 2007-13: Ieuenctid ar Waith | Ieuenctid | 74,955 | 62,198 | |
| | 2014-20: Erasmus+ | *Amrywiol* | 732,322 | 607,681 | |
| Ymchwil a Datblygu | FP7 (7fed Fframwaith) | *Amrywiol* | 0 | 0 | |
| | Gorwel 2020 (yn cynnwys Canolfan Ymchwil Ewrop) | *Amrywiol* | 0 | 0 | |
| CYFANSWM: € | | | 5,851,423 | | |
| CYFANSWM | *Graddfa gyfnewid ar 1 Ion 2014* | *0.8298* | | 4,855,511 | 17,928,277 |
| CYFANSWM: GB£ | | | | | 22,783,788 |

# Y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd

**Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd**, a gaiff eu datganoli'n ôl i'r aelod-wladwriaethau yn bennaf ac, yn achos y Deyrnas Unedig, eu dosbarthu ar wahân wedyn yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae'r Cronfeydd hyn hefyd yn cwmpasu rhaglen **Interreg** sy'n cyllido rhaglenni ar sail partneriaethau trawsgenedlaethol ac sy'n dosbarthu drwy nifer o feysydd ac is-feysydd sydd â ffocws daearyddol (mae Cymru'n gymwys i ymgyfranogi o 8 o'r is-feysydd hyn).

## Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
## Cronfa Gymdeithasol Ewrop

## 2007-2013

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cronfa ddata ar-lein o brosiectau'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ar gyfer y cyfnod hwn, gan gynnwys ar gyfer Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (gweler isod). O chwilio yn y gronfa ddata hon, gwelir y grantiau canlynol sy'n berthnasol i'r celfyddydau yn y cyfnod hwn. Mae dau gafeat i'r tabl hwn:

- O ystyried natur y prosiectau hyn, ni theimlir bod grant cyfan yr UE yn uniongyrchol berthnasol i'r celfyddydau yn ôl diffiniad Cyngor Celfyddydau Cymru – felly ychwanegwyd colofn (derfynol) ychwanegol i'r tabl ac amcangyfrifwyd y swm sy'n berthnasol i'r celfyddydau (rhwng 20-50%).
- Y mae'n bosib y gallai rhai prosiectau fod wedi'u hepgor – mae 290 o brosiectau ac nid oedd yr adnoddau ar gyfer y gwaith ymchwil hwn yn caniatáu dadansoddi pob un o'r prosiectau hyn yn fanwl – dewiswyd y rhai a ystyriwyd yn berthnasol o deitl y prosiect, thema, enw'r sefydliad arweiniol ac ati. Felly gallai'r tabl hwn fod yn amcangyfrif yn rhy isel.

| Enw'r Prosiect | Partner Arweiniol | Thema Allweddol | Maes | Prt | Grant yr UE | Amcangyfrif i'r Celfyddydau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan y Celfyddydau ac Arloesi P1T1 | Prifysgol Bangor | Arloesi, Ymchwil a Datblygu a Thechnoleg | 1 | 1 | £4,821,171.43 | £2,410,585.72 |
| Athrofa Datblygu Cynaliadwy | Prifysgol Fetropolitan Abertawe | Arloesi, Ymchwil a Datblygu a Thechnoleg | 1 | 1 | £2,587,684.13 | £1,293,842.06 |
| Sgiliau yn yr Economi Ddigidol - Diwydiannau'r Cyfryngau Creadigol | Creative Skillset | Sgiliau ar gyfer yr Economi Wybodaeth: Sgiliau lefel uwch a systemau i ddatblygu'r gweithlu | 3 | 2 | £2,572,111.20 | £1,286,055.60 |
| Canolfan y Celfyddydau ac Arloesi P5T1 | Prifysgol Bangor | Fframwaith Adfywio Cynaliadwy ar gyfer Ardal Cynllun Gofodol Gogledd-orllewin a Gogledd-ddwyrain Cymru | 5 | 1 | £7,662,000.00 | £3,831,000.00 |
| Cyrraedd y Nod: Llwybrau i'r Brig | Amrywiol, yn cynnwys Cerdd Gymunedol Cymru* | Rhoi Sgiliau i Bobl Ifanc Ddysgu a Chael Cyflogaeth yn y Dyfodol | 1 | 2 | £6,771,931.89 | 1,354,386.40 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyrraedd y Nod: Troedle Cyntaf | Amrywiol, yn cynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru* | Rhoi Sgiliau i Bobl Ifanc Ddysgu a Chael Cyflogaeth yn y Dyfodol | 1 | 1 | £8,773,117.22 | 1,754,623.44 |
| CYFANSWM | | | | | | £11,930,493.22 |

## 2014-2020

Mae'r Atodiad yn cynnwys rhestr fanwl o'r holl brosiectau a gyllidwyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop ers 2014 – ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw gyfeiriad at y celfyddydau.

## Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig Yn cynnwys LEADER

Nodwyd y canlynol yn brosiectau sy'n berthnasol i'r celfyddydau. Mae disgrifiadau o'r prosiectau wedi'u cynnwys yn yr Atodiad.

## 2007-2013

| Cyf | Enw'r Prosiect | Ardal | Echel | Mesur | Cyfanswm Costau'r Prosiect | Cyfanswm Cynllun Datblygu Gwledig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CAR 01 | Canolfan Grefftau Sir Gaerfyrddin | Sir Gaerfyrddin | 3 | 312 | £431,459.00 | £345,167.00 |
| CAR 11 | Cymunedau Cynaliadwy - Datblygu Hunaniaeth ac Arbenigrwydd | Sir Gaerfyrddin | 3 | 313 | £530,168.00 | £424,134.00 |
| CER 13 | Rhaglen Datblygu Digwyddiadau Gwledig Ceredigion | Ceredigion | 3 | 313 | £347,160.00 | £277,727.00 |
| CER 17 | PLWM – Llefydd, Tirweddau, Gweithwyr, Mwynau | Ceredigion | 3 | 323 | £291,648.00 | £210,000.00 |
| CON 15 | Grantiau Datblygu Celf a Threftadaeth | Conwy | 3 | 323 | £105,000.00 | £78,750.00 |
| MER.10 | Dogfennu Diwylliant a Threftadaeth Gymreig - Pob Ward Wledig | Merthyr Tudful | 3 | 323 | £67,038.00 | £47,582.00 |
| PEM.03 | Seafair | Sir Benfro | 3 | 313 | £314,048.00 | £251,193.00 |
| POW 08 | Gwyliau a Digwyddiadau yn Mhowys | Powys | 3 | 313 | £275,242.00 | £220,194.00 |
| POW 14 | Diwylliant, Treftadaeth a Chynnyrch Lleol | Powys | 4 | 41 | £261,350.00 | £209,080.00 |
| WRE.25 | Chwedleua Digidol | Wrecsam | 3 | 323 | £176,406.00 | £141,125.00 |
| VAL.58 | Balchder yn y Fro | Bro Morgannwg | 4 | 41 | £720,000.00 | £576,000.00 |
| WRE.56 | Treftadaeth a diwylliant Wrecsam | Wrecsam | 3 | 323 | £592,467.40 | £403,575.86 |
| | | CYFANSWM | | | | £3,184,527.86 |

## 2014-2020

| Teitl y Prosiect | Ffynhonnell y Cyllid | Grant | Dyddiad Gorffen | Ardal | Ffocws |
|---|---|---|---|---|---|
| Mon Made | LEADER | £14,796 | 31/12/2017 | Ynys Môn | 19.2 |
| Pecyn Cymorth Cymunedau Creadigol | LEADER | £58,000 | 31/12/2018 | Sir Fynwy | 19.2 |
| Chwedleua Digidol | Cronfa Datblygu Gwledig 2007-2013 | £176,406 | 28/02/2011 | Wrecsam | Echel 3 |
| Y Llwyfan | Cynllun Datblygu Gwledig | £135,722 | 28/02/2011 | Sir Gaerfyrddin | Echel 3 |
| Canolfan Crefftau Sir Gâr | Cynllun Datblygu Gwledig | £345,167 | 31/10/2011 | Sir Gaerfyrddin | Echel 3 |
| Rhaglen Datblygu Digwyddiadau Gwledig Ceredigion | Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 | £277,727 | 28/02/2011 | Ceredigion | Echel 3 |
| Cynllun Grantiau'r Celfyddydau a Threftadaeth | Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 | £161,800 | 28/02/2011 | Conwy | Echel 3 |
| Cyfle i Greu | Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 | £476,814 | 28/02/2011 | Powys | Echel 3 |
| Gwyliau a Digwyddiadau Powys | Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 | £287,733 | 28/02/2011 | Powys | Echel 3 |
| Rhwydwaith Digwyddiadau Gwledig | Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 | £55,901 | 30/05/2010 | Bro Morgannwg | Echel 3 |
| Gweithredu Gwledig Abertawe: Celfyddydau, Crefftau a Chynnyrch Naturiol Lleol i Farchnadoedd Lleol | Cynllun Datblygu Gwledig / Cronfa Datblygu Cynaliadwy Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol / Cronfa Deddf Eglwys Cymru / Canolfan Gymunedol Penclawdd | £83,073 | 28/02/2011 | Abertawe | Echel 4 |
| Y Deyrnas Gopr | Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 | £270,000 | 28/02/2011 | Ynys Môn | Echel 3 |
| Dathliad Diwylliannol | Cynllun Datblygu Gwledig Cymru | £280,000 | 28/02/2011 | Sir y Fflint | Echel 3 |
| Gwyliau a Digwyddiadau Sir Fynwy | Cynllun Datblygu Gwledig / Llywodraeth Cymru / Cyngor Sir Fynwy | £190,120 | 28/02/2011 | Sir Fynwy | Echel 4 |
| **CYFANSWM** | | **£2,813,259** | | | |

Nodwyd y prosiect canlynol hefyd o un ffynhonnell ond nid yw'n ymddangos yn y gronfa ddata swyddogol a gynhyrchodd y canlyniadau uchod. Felly gallai fod yn berthnasol ond nid yw wedi'i gynnwys yn y cyfansymiau at ddibenion y gwaith ymchwil hwn.

| Cynllun | Enw'r Prosiect | Ymgeisydd | Swm Cymeradwy Presennol o'r Cynllun Datblygu Gwledig | Swm Cymeradwy Presennol o'r Cynllun Datblygu Gwledig – Ewros |
|---|---|---|---|---|
| **Datblygu Cymunedol Gwledig** | Ymddiriedolaeth Fethodist Amelia – Stiwdio Recordio ac Amlgyfrwng | Ymddiriedolaeth Fethodist Amelia | £100,000.00 | €118,455.00 |

# Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop

## 2007-2013

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cronfa ddata ar-lein o brosiectau'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ar gyfer y cyfnod hwn, gan gynnwys ar gyfer Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. O chwilio yn y gronfa ddata hon, ni welir unrhyw grantiau o'r gronfa hon sy'n berthnasol i'r celfyddydau yn y cyfnod hwn.

## 2014-2020

Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw wybodaeth am brosiectau a gyllidir gan y rhaglen hon ers 2014.

# Interreg

Mae'r adran hon yn cynnwys manylion yr holl brosiectau sydd â phartneriaid o Gymru ac sy'n ymddangos yn berthnasol i'r celfyddydau. Mae'r rhai y credir nad ydynt yn berthnasol i'r celfyddydau wedi'u rhoi mewn llythrennau italig. Mae disgrifiadau o'r prosiectau wedi'u cynnwys yn yr Atodiad.

## 2007-2013

### A: Gorllewin Cymru ac Iwerddon a Gogledd Iwerddon a De-orllewin Cymru

| Acronym | Enw'r Prosiect | Grant yr UE | I Gymru | Part | C | Partner Arweiniol | Gwlad? | Arall yng Nghymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| HERCULES | Treftadaeth a Diwylliant ar gyfer Dysgu, Grymuso a Thwristiaeth Gynaliadwy | 394,731.00 | 197,365.00 | 2 | 1 | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | DU:C | |
| Coracle | Coracle – Oracl Creadigol | 1,224,901.00 | 244,980.20 | 5 | 1 | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | DU:C | |
| CYFANSWM | | 1,619,632.00 | 442,345.20 | | | | | |

### B: Ardal yr Iwerydd

| Acronym | Enw'r Prosiect | Grant yr UE | I Gymru | Part | C | Partner Arweiniol | PA | Arall yng Nghymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CINEW | Ffenestr Ewropeaidd Rhwydwaith Mentrau Creadigol | 645,726.00 | 92,246.57 | 7 | 1 | Mayo County Council | EI | Prifysgol Abertawe |
| CISNET | Rhwydwaith cymorth y diwydiannau creadigol i BBaChau yr Iwerydd | 985,176.00 | 164,196.00 | 6 | 1 | Mayo County Council | EI | Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan |
| CYFANSWM | | 1,630,902.00 | 256,442.57 | | | | | |

### B: Gogledd-orllewin Ewrop

| Acronym | Enw'r Prosiect | Grant yr UE | I Gymru | Part | C | Partner Arweiniol | PA | Arall yng Nghymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SHARE | Diogelu Treftadaeth ac Economïau Gwledig | 2,340,694.56 | 390,115.75 | 6 | 1 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | DU: C | |
| COLLABOR8 | Cydweithio ar gyfer datblygu economaidd ar sail hunaniaeth | 5,996,289.45 | 1,332,508.60 | 9 | 2 | South Kerry Development Partnership Ltd | EI | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ECCE Innovation | Datblygu Clystyrau Economaidd a Mentrau Creadigol yn y Broses Arloesi | 1,892,513.99 | 236,564.23 | 8 | 1 | Nantes Métropole | FR | Cyngor Dinas Caerdydd |
| **CYFANSWM** | | **10,229,498.00** | **1,959,188.58** | | | | | |

## C: Cyffredinol

| Acronym | Enw'r Prosiect | Grant yr UE | I Gymru | Part | C | Partner Arweiniol | PA | Arall yng |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TOOL QUIZ | Cyflogadwyedd ac economi'n seiliedig ar wybodaeth: offer ar gyfer diwylliant arloesol | 1,086,940.25 | 167,221.56 | 13 | 2 | Conseil régional Nord-Pas de Calais - Direction de la Culture | FR | Prifysgol Bangor; Cyngor Celfyddydau Cymru |
| ZEN | Rhwydwaith Digwyddiadau Treftadaeth Ddiwylliannol Dim Effaith | 1,252,,456.10 | 96,342.78 | 13 | 1 | Sviluppumbria – Asiantaeth Datblygu Rhanbarthol er Hybu'r Economi | IT | Cyngor Sir Powys |
| **CYFANSWM** | | **1,088,648.35** | **263,564.34** | | | | | |

# 2014-2020

Ni nodwyd unrhyw brosiectau hyd yma ar gyfer y cyfnod hwn.

# Cronfeydd Trawsgenedlaethol

Y **cronfeydd trawsgenedlaethol**, a luniwyd i ysgogi cydweithio rhwng partneriaid o sawl gwlad gymwys, neu sy'n cynorthwyo ymweliadau a chyfnewidiadau rhwng gwledydd.

## Ewrop Greadigol / Diwylliant

## 2007-2013

### Rhaglen Ddiwylliannol

Mae gan y prosiectau canlynol bartneriaid o Gymru ac maent yn berthnasol i'r celfyddydau:

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | 2008 | 1.1 | 139889 | Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau | 1,384,620.00 | 95,491.03 | 29 | 2 | Canolfan Mercator, Prifysgol Aberystwyth | Arweiniol |
| | | | | | | | | | Prifysgol Bangor | Cyd-drefnydd |
| 2012 | 2013 | 1.2.1 | 536225 | Proses Agored Dance Roads | 163,916,00 | 40,979.00 | 4 | 1 | Chapter (Caerdydd) Ltd | Arweiniol |
| 2012 | 2013 | 1.2.1 | 536253 | Rhwydwaith Celf, Gwyddoniaeth a Thechnoleg Ewrop | 200,000.00 | 33,333.33 | 6 | 1 | Prifysgol Fetropolitan Caerdydd | Cyd-drefnydd |
| 2012 | 2013 | 1.2.1 | 536126 | Rhagolygon Ewropeaidd | 200.000.00 | 50,000.00 | 4 | 1 | Ffotogallery Wales Limited | Arweiniol |
| 2012 | 2013 | 1.2.1 | 536112 | GestArt – Artistic Gestures: ailymweld ag amrywiaeth a chydgyfeiriant Artistig Ewropeaidd | 195,000.00 | 32,500.00 | 6 | 1 | Welsh Rock Art Organisation | Cyd-drefnydd |
| 2012 | 2013 | 1.2.1 | 536512 | Schwob – Porth Ewropeaidd i'r Llyfrau Anhysbys Gorau | 200.000.00 | 28,571.43 | 7 | 1 | Cyfnewidfa Lên Cymru, Prifysgol Aberystwyth | Cyd-drefnydd |
| 2012 | 2013 | 1.2.1 | 536571 | Un Pays, des Peuples / One Land, Many Faces | 200.000.00 | 28,571.43 | 7 | 1 | Theatr Volcano | Cyd-drefnydd |
| | | | | **CYFANSWM** | | **213,955.19** | | | | |

# 2014-2020

## Ewrop Greadigol: Is-Raglen Diwylliant

Mae gan y prosiectau canlynol bartneriaid o Gymru ac yn berthnasol i'r celfyddydau:

### Prosiectau Cydweithio

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014 | 552414-CREA-1-2014-1-BE-CULT-COOP2 | Prosiect Digidol Opera Ewrop | 1,855,688.02 | 154,640.66 | 12 | 1 | Royal Opera House Covent<br>Opera Cenedlaethol Cymru | BE |
| 2017 | 583798-CREA-1-2017-1-UK-CULT-COOP2 | Rhwydwaith Celf-Gwyddoniaeth-Technoleg Ewropeaidd er Creadigrwydd Digidol | 1,374,788.00 | 105,752.92 | 13 | 1 | OpenUp Music CIC (Bryste, Lloegr)<br>Prifysgol Caerdydd<br>Prifysgol Manceinion | FR |
| 2017 | 583931-CREA-1-2017-1-UK-CULT- | Opera Vision | 1,993,000.00 | 68,724.14 | 29 | 1 | Opera North<br>Royal Opera House<br>Opera Cenedlaethol Cymru | BE |
| | CYFANSWM | | | 329,117.72 | | | | |

### Platfformau

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2015 | 562324-CREA-1-2015-1-UK-CULT-PLAT | Ewrop Lenyddol Fyw | 455,425.56 | 455,425.56 | 1 | 1 | Prifysgol Aberystwyth | DU |

## Ewrop i Ddinasyddion

**Ni wnaeth y sector treftadaeth yng Nghymru yn dda o'r rhaglen hon** – ni fu prosiectau'n ymwneud â threftadaeth a oedd â phartneriaid o Gymru ers 2007. Mae rhestr lawn o'r holl brosiectau sydd â phartneriaid o'r Deyrnas Unedig yn y cyfnod hwn wedi'i chynnwys yn yr Atodiad.

## Erasmus + / Dysgu Gydol Oes / Ieuenctid ar Waith

